Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Comins Coch

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae arweinwyr yn datblygu diwylliant cadarnhaol ac ethos cynhwysol, gan ganolbwyntio ar ddysgu a lles disgyblion yn effeithiol. Mae'r amgylchedd anogol hwn, sy'n ganolog i'w strategaethau gwella, yn arwain at ymddygiad a brwdfrydedd rhagorol ar gyfer dysgu ymhlith disgyblion. Mae parodrwydd arweinwyr i wella arferion trwy werthusiadau rheolaidd yn arwain at brosesau gwella trefnus.

Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad staff yn dda ac mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r disgyblion. Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi ac yn herio arweinwyr yn drylwyr, ac yn canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu trwy gylch monitro effeithiol. Mae arweinwyr yn dyrannu rolau a chyfrifoldebau yn effeithiol, gan ystyried baich gwaith a lles staff yn synhwyrol. Mae cyfleoedd dysgu, fel diwrnodau entrepreneuraidd, yn hyrwyddo dealltwriaeth gymunedol yn llwyddiannus, ac mae grwpiau llais y disgybl yn dylanwadu ar fywyd yr ysgol a chodi arian i elusennau yn gadarnhaol.

Mae staff a disgyblion yn datblygu perthnasoedd gwaith rhagorol, ac mae athrawon yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau'n synhwyrol. Maent yn rhoi adborth i helpu disgyblion i ddeall tasgau a gwella, er nad yw'r adborth hwn bob amser yn herio ac yn nodi'r camau nesaf yn nysgu disgyblion unigol yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o'r sesiynau addysgu yn symud ar gyflymdra addas, ac mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau difyr, ond pan mae'r addysgu'n llai heriol, nid yw dysgu'r disgyblion mor effeithiol.

Mae disgyblion yn datblygu medrau llafaredd a darllen cryf, gan ddod yn ddarllenwyr medrus sy'n ymgysylltu'n ddwfn â thestunau. Maent yn ysgrifennu'n llwyddiannus at ddibenion amrywiol ac yn defnyddio medrau rhifedd a digidol effeithiol yn hyderus. Mae gan ddisgyblion agweddau eithriadol o dda tuag at ddysgu Cymraeg ac maent yn defnyddio'r iaith yn hyderus, sy'n gryfder nodedig yn yr ysgol.

Mae'r amgylchedd dysgu yn ysgogol ac yn cynnwys adnoddau da, er nad yw'r ddarpariaeth yn yr awyr agored wedi'i datblygu'n ddigon da i gynorthwyo disgyblion i gymhwyso'u medrau mewn gweithgareddau dysgu buddiol. Mae'r cwricwlwm yn cynnig profiadau dysgu eang, sy'n adeiladu ar fedrau a addysgwyd yn y gorffennol yn effeithiol. Mae disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol, emosiynol a chreadigol gwerthfawr, sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol effeithiol, empathi a pharch at bobl eraill.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:**

**A1 Sicrhau bod athrawon yn rheoli amser yn effeithiol mewn gwersi i herio a nodi'n gywir y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion**

**A2 Gwella ansawdd a darpariaeth y profiadau dysgu yn yr awyr agored**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhelliad o'r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2025

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.